

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a
Sgiliau
**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
i Gymru**

Ionawr 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddESS

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddESS](https://twitter.com/SeneddESS)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na diffrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a
Sgiliau
**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
i Gymru**

Ionawr 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Russell George AC (Cadeirydd)
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Hannah Blythyn AC
Llafur Cymru
Delyn



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Jeremy Miles AC
Llafur Cymru
Castell-nedd



Adam Price AC
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



David J Rowlands AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
01. Cefndir yr ymchwiliad.....	9
02. Cylch gwaith	11
03. Llywodraethu ac annibyniaeth.....	19
04. Sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu ac yn gweithio â Llywodraeth Cymru	23
05. Gweithio ag awdurdodau lleol/Dinas-ranbarthau	26
06. Gweithio â chyrff eraill	32
Casgliadau.....	34
Atodiad A: Y dystiolaeth a gafwyd.....	36
Atodiad B: Nodyn o'r sesiwn â rhanddeiliaid ar 17 Tachwedd	38
Atodiad C: Geirfa.....	41

Rhagair y Cadeirydd

Ers sefydlu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ym mis Gorffennaf 2016, rydym wedi bod yn uchelgeisiol iawn yn ein gwaith. Rydym am i'r gwaith hwnnw gael dylanwad ac effaith. Wrth ymgynghori dros yr haf, daeth yn glir bod y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru yn fater o bwys i economi Cymru. Amserwyd yr ymchwiliad hwn fel y byddai ein tystiolaeth a'n hargymhellion yn cyfrannu at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac at "ddull pragmataidd" Ysgrifennydd y Cabinet o ddatblygu'r Comisiwn.

Yn ystod ein hymchwiliad, roeddem yn awyddus i edrych ar sut y mae gwledydd eraill yn delio â materion sy'n ymwneud â'r seilwaith, ac mae'r dystiolaeth a gawsom o Awstralia, lle ceir corff seilwaith ffederal ynghyd â nifer o gyrrff taleithiol gwahanol, wedi bod yn llinyn mesur gwerthfawr wrth i ni gnoi cil dros bethau.


Wrth edrych ar gynigion Llywodraeth Cymru, rydym yn cytuno â llawer o'r rheini. Ond rydym yn anghytuno mewn tri phrif faes:

- Credwn y byddai manteision gwirioneddol yn sgil sefydlu'r Comisiwn ar sail statudol. Er nad oes angen i hyn achosi oedi wrth ei sefydlu, os mai Comisiwn anstatudol fydd hwn i gychwyn, rydym yn gryf o'r farn y dylid rhagdybio y bydd deddfwriaeth yn dilyn ar adeg addas.
- Deallwn y dyhead i beidio â rhoi gormod o faich ar y corff newydd. Serch hynny, law yn llaw â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, credwn y dylid ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig.
- Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gweddnewid y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru. Credwn y dylai'r cyfrifoldebau hyn fod wedi'u gwreiddio yn y sefydliad o'r cychwyn cyntaf, er mwyn hyrwyddo cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill, er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, ac er mwyn sicrhau bod y corff yn annibynnol ar y llywodraeth.

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion ynghylch sut y dylai'r Comisiwn weithredu, ac am ei berthynas â chyrff eraill. Bydd llwyddiant y sefydliad yn dibynnu ar ba mor dda y gall ddatblygu'r perthnasau hyn, a hynny â Chomisiwn y DU, Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol a rhanbarthol, yn ogystal â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gweledigaeth Ysgrifennydd y Cabinet yw sefydlu corff arbenigol, annibynnol a all wneud penderfyniadau hynod bwysig mewn meysydd dadleuol heb unrhyw ddylanwad gwleidyddol. Mae'r weledigaeth honno'n un gref. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r Comisiwn gael gwir arbenigedd technegol, gan gydlyn ac edrych ar y modd yr ydym yn cynllunio ar gyfer y seilwaith yng Nghymru o safbwynt hirdymor.

Mae hon yn gryn her – ond bydd modd ei chyflawni. Gobeithiwn y bydd ein hargymhellion yn rhoi sail i sefydlu'r Comisiwn yn ddiymdroi. Bydd y Comisiwn hwnnw – ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei chryfhau – yn gallu sicrhau bod Cymru yn datblygu'r seilwaith hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arno er mwyn creu cenedl ffyniannus yn yr unfed ganrif ar hugain.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Russell George', with a stylized flourish underneath.

Russell George AC, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Argymhellion

Argymhelliad 1. Yn ogystal â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, dylid ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig. Tudalen 14

Argymhelliad 2. Dylai'r llythyr cylch gwaith blynyddol i'r Comisiwn gynnwys amcan o gyfanswm y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei wario ar y seilwaith, a hynny dros y cyfnod hiraf sy'n ymarferol. Tudalen 16

Argymhelliad 3. Mae angen tîm penodol o bobl i roi sylw manwl i sut y defnyddir cyllid preifat wrth ddatblygu'r seilwaith. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai'r tîm hwnnw fod yn rhan o Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru ynteu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, yn ogystal ag ystyried sut y bydd y tîm yn cydweithio â'r rhai sy'n gwneud gwaith perthnasol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru. Tudalen 18

Argymhelliad 4. Dylid sefydlu'r Comisiwn yn gorff anstatudol, ond gyda rhagdybiaeth glir y bydd deddfwriaeth yn dilyn er mwyn i'r Comisiwn fod yn gorff statudol, annibynnol. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r ffordd orau o greu corff statudol. Tudalen 21

Argymhelliad 5. Er mwyn hybu ei annibyniaeth, dylid lleoli'r Comisiwn y tu allan i Gaerdydd, ac ni ddylai rannu adeilad ag adrannau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r costau cyn ised â phosibl, dylai rannu lleoliad â chorff cyhoeddus arall mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian. Tudalen 22

Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu cynnal gwrandawriad cyn penodi Cadeirydd y Comisiwn. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu craffu'n flynyddol ar y Comisiwn a'i waith, ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad blynyddol. Tudalen 22

Argymhelliad 7. Dylai'r Comisiwn lunio adroddiad rheolaidd ar "Gyflwr y Genedl" gan ddilyn amserlen wahanol i'r amserlen wleidyddol. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid gwneud hyn bob tair blynedd. Dylai'r adroddiad blynyddol roi sylw i faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, a'i raglen waith dros y 12 mis nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion – boed yn yr adroddiad bob tair

blynedd, neu mewn darnau unigol o waith – a hynny o fewn 6 mis.

..... **Tudalen 24**

Argymhelliad 8. Dylai'r penodiadau a wneir i'r Comisiwn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn deall pob rhan o Gymru. O ystyried pwysigrwydd y Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu ffordd i ddwyn ynghyd y gwahanol ranbarthau yng Nghymru ac i ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarthau hynny.

..... **Tudalen 28**

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru annog y Comisiwn i sefydlu a datblygu perthynas gref â Chomisiwn y DU a'r Scottish Futures Trust, a dylent rannu gwybodaeth â'i gilydd. Dylid gwneud hyn yn y llythyr cylch gwaith cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd gan y Comisiwn gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ystyried goblygiadau prosiectau trawsffiniol a phrosiectau yn Lloegr yn unig sy'n gallu cael effaith fawr ar Gymru.

Tudalen 30

Argymhelliad 10. Dylid ystyried y Comisiwn yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Tudalen 32

01. Cefndir yr ymchwiliad

1. Roedd y cytundeb rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mai 2016 yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, sy'n gyfrifol am sefydlu'r Comisiwn.
2. Yn ystod sesiwn graffu gychwynol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf 2016, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu'r Comisiwn. Sefydliad annibynnol, anstatudol fydd y Comisiwn, fel y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU. Bydd yn rhoi cyngor arbenigol a thechnegol er mwyn creu strategaeth hirdymor i fuddsoddi yn y seilwaith economaidd, gan edrych hyd at 30 mlynedd i'r dyfodol ond gan beidio ag ailedrych ar benderfyniadau a wnaed eisoes. Bydd angen iddo ystyried argymhellion cyrff eraill sydd â rôl statudol yn ymwneud â'r seilwaith, a bydd yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei waith. Er mwyn cydlynu pethau'n dda, y bwriad yw y bydd un aelod o Gomisiwn Llywodraeth y DU yn rhan o Gomisiwn Cymru.
3. Dros yr haf, ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang, gan geisio barn am ei flaenoriaethau yn ystod y Pumed Cynulliad. Dywedodd nifer o sefydliadau¹ y byddent yn hoffi gweld y Pwyllgor yn craffu ar y broses o sefydlu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Ymhlith y materion o bwys y dylid eu hystyried roedd yr angen i gael gweledigaeth hirdymor ar gyfer y seilwaith, rôl a chylch gwaith y Comisiwn, sut y byddai gwaith y Comisiwn yn effeithio ar brosiectau mawr, dysgu o'r arferion gorau'n rhyngwladol, a sut y gallai'r Comisiwn wella'r trefniadau presennol ar gyfer y seilwaith.
4. Yn ei sesiwn strategaeth ar 16 Medi 2016, cytunodd y Pwyllgor y byddai cynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Comisiwn yn flaenoriaeth bwysig ar gyfer ei waith craffu.
5. Ar 17 Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ymgynghori – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru – sy'n ceisio barn am sut y dylid sefydlu a rhedeg y Comisiwn. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 9 Ionawr 2017.
6. Trefnodd y Pwyllgor y byddai'n casglu tystiolaeth er mwyn gallu rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei ganfyddiadau o fewn amserlen yr ymgynghoriad. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, diolchodd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, i'r Pwyllgor am ei waith amserol iawn yn y maes hwn.

Cylch gorchwyl

7. Nod yr ymchwiliad oedd rhoi eglurder i randdeiliaid ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu'r Comisiwn, dylanwadu ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, a chyflwyno argymhellion ystyrlon i'r Llywodraeth.
8. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl hwn:

– Beth ddylai rôl, cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn fod;

¹ Roedd CBI Cymru, CITB Cymru Wales, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ymateb ar y cyd gan bum sefydliad peirianeg yn galw'n benodol am graffu ar y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol arfaethedig i Gymru. Cyfeiriodd nifer o sefydliadau eraill hefyd at bwysigrwydd y seilwaith strategol, gan gynnwys: Sefydliad Bevan, Maes Awyr Caerdydd, Carnegie Trust, Cymdeithas y Contractwyr Peirianeg Sifil, Colegau Cymru, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Siambr Fasnach De a Chanolbarth Cymru, a Chynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru. Cyfeiriodd Cyngor Sir y Fflint a Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru hefyd at bwysigrwydd y seilwaith lleol.

- Sut y dylai'r Comisiwn weithredu, a pha fethodolegau y dylai eu mabwysiadu ar gyfer cynnal ei waith;
- Sut y dylai'r Comisiwn gael ei lywodraethu a'i ariannu i sicrhau ei fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru;
- Enghreifftiau o arfer gorau yn y DU ac yn rhyngwladol y gallai'r Comisiwn ddysgu oddi wrthynt;
- Sut y dylai gwaith y Comisiwn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Sut, ac i ba raddau, y dylai gwaith y Comisiwn ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau o ran prosiectau seilwaith;
- Sut y dylai gwaith y Comisiwn ryngweithio â blaenoriaethau seilwaith rhanbarthol a Bargeinion Dinesig / Bargeinion Twf; a
- Pha berthynas y dylai'r Comisiwn ei chael â Chomisiwn Llywodraeth y DU ar faterion trawsffiniol a seilwaith mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n rhannol.

02. Cylch gwaith

Y seilwaith economaidd ac amgylcheddol

9. Mae'r cynigion ar gyfer y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru yn datgan y bydd y Comisiwn yn rhoi cyngor technegol a strategol annibynnol ac arbenigol i Lywodraeth Cymru ynghylch anghenion seilwaith Cymru yn yr hirdymor, dros gyfnod o 5 i 30 mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru am y seilwaith economaidd ac amgylcheddol², gan weithio ar draws sectorau ac ymwneud â chyrrff eraill y mae'r seilwaith yn rhan o'u cylchoedd gwaith, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, OFWAT a'r Grid Cenedlaethol. Gan Lywodraeth Cymru o hyd y bydd y cyfrifoldeb dros bolisiau a phenderfyniadau ynghylch buddsoddi.

10. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

“I wish to take a pragmatic approach to this matter, but the overall objectives of establishing an infrastructure commission for Wales are to depoliticise some of the major decisions that need to be made, to bring in expert and technical advice on an independent basis to advise Ministers on key infrastructure for the long term, to ensure that we have infrastructure decisions made and advice provided on in making those decisions that can overcome some of the challenges of the electoral cycle—again, to avoid politicising some key infrastructure decisions—and also to accelerate the process of delivery of key infrastructure projects.”³

11. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylai'r Comisiwn gyflwyno adroddiadau rheolaidd iddi, ac y dylai'r adroddiadau hyn edrych ar bethau o safbwynt pob sector yng nghyd-destun rhagolygon realistig o lefel y buddsoddiad cyfalaf a fydd ar gael. Dylai'r Comisiwn hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol am ei waith.

12. Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn yn dangos ei gylch gwaith posibl. Mae hyn yn cynnwys pob sector sy'n ymwneud â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys ynni, trafniadaeth, dŵr a charthffosiaeth, draenio, gwastraff, cyfathrebu digidol a rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Ni fyddai cylch gwaith y Pwyllgor yn ymestyn i gynnwys y seilwaith cymdeithasol⁴, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod trefniadau eisoes wedi'u sefydlu i ddarparu'r seilwaith hwnnw yn y tymor hir, a'r awdurdodau cynllunio a'r gwasanaethau perthnasol ddylai barhau i fod yn gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn rhoi cyngor am y rhyngweithio rhwng y seilwaith economaidd ac amgylcheddol a'r seilwaith cymdeithasol.

13. Mae rhai sefydliadau amgylcheddol hefyd wedi galw am gynnwys y seilwaith gwyrdd⁵ yn benodol yn rhan o'r cylch gwaith.

14. Yn y **cyfarfod llawn ar 18 Hydref**, ac eto yn y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod yn fodlon gwrandao ar y dadleuon yn hyn o beth, ac y byddai'r cylch gwaith yn cael ei adolygu cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

² Gweler Atodiad C: Geirfa

³ Paragraff 5 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

⁴ Gweler Atodiad C: Geirfa

⁵ Gweler Atodiad C: Geirfa

15. Yn y sesiwn dystiolaeth â chyrrff rhanbarthol, clywodd y Pwyllgor fod angen dull cyfannol o drefnu pethau. Dywedodd Iwan Prys-Jones, Rheolwr Rhaglenni Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:

“Economic growth depends as much on housing and land for employment and the quality-of life aspects as it does on a road scheme or a new piece of drainage infrastructure. So, the plan has to be holistic.”⁶

16. Roedd y sector adeiladu o blaid cylch gwaith ehangach. Galwodd y **Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi** am gynnwys y sector tai, gan ddadlau y dylid edrych yn strategol ar bethau fel ble y dylid codi tai; ble mae'r galw mwyaf am dai; a sut y mae'r seilwaith presennol yn cyfyngu ar gyflenwi tai. O ran gweithio'n strategol, dywedodd ACE Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fod angen edrych mewn ffordd wahanol ar brosiectau mawr i godi tai newydd, ac y dylai'r Comisiwn allu ystyried hyn o safbwynt Cymru gyfan, yn hytrach nag ystyried safbwyntiau awdurdodau lleol yn unig.

17. Barn Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru (CECA) yw bod integreiddio'r seilwaith cymdeithasol a thrafnidiaeth yn hanfodol ac ystyried bod y naill a'r llall yn ddibynnol ar ei gilydd, a'r angen i gysylltu'r manau lle mae pobl yn gweithio ac yn byw ynddynt. Dywedodd Ed Evans, Cyfarwyddwr y Gymdeithas yng Nghymru:

“I think we need to see infrastructure in its entirety, and it does encompass economic, social and environmental considerations. We need to tap in to the ambitions across the whole of Wales. I think if we exclude a bit of it—and I think there is a suggestion at the moment to exclude, maybe, the social element of it—I'm not quite sure how that ties in with the well-being of future generations Act, which I think has got to underpin the work of this commission.

But if you think of social infrastructure in terms of housing, for instance, that has to be seen in the context of transport, connectedness, integration—it's an important driver of some of the decision making. So, maybe at a strategic level, that should be in there. Operationally, I think that's a different discussion to be had.”⁷

18. Wrth edrych ar gyrrff seilwaith eraill, ceir sawl model gwahanol, gyda rhai'n canolbwyntio'n benodol ar y seilwaith economaidd, tra bo eraill yn rhoi sylw i'r seilwaith cymdeithasol yn ogystal.

19. Mae **cylch gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU** yn canolbwyntio ar y seilwaith economaidd, yn debyg i'r cylch gwaith a fwriedir ar gyfer y Comisiwn yng Nghymru. Mae Comisiwn y DU hefyd yn edrych ar effaith bosibl penderfyniadau sy'n ymwneud â'r seilwaith ar y cyflenwad o dai. Mae'r **rhesymau a roddodd Llywodraeth y DU** dros lynu wrth y cylch gwaith hwn i'w gweld yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y modd y byddai Comisiwn y DU yn cael ei lywodraethu, ei strwythuro a'i weithredu:

“The government does not envisage extending the scope of the commission's remit beyond those areas of economic infrastructure outlined in the consultation document, or setting any additional objectives. The government

⁶ Paragraff 68, 1 Rhagfyr 2016

⁷ Paragraff 28, 17 Tachwedd 2016

considers that the commission's core remit to examine economic infrastructure is already far-reaching, and that adding further obligations or objectives in this area would lessen its ability to fulfil its core function.”

20. Mae **Infrastructure Australia**, sy'n gorff ffederal, hefyd yn canolbwyntio ar y seilwaith economaidd, gan edrych ar drafnidiaeth, dŵr, ynni a thelathrebu. Cafodd y sectorau hyn **eu disgrifio yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd Infrastructure Australia** fel rhai lle byddai buddsoddiad neu ragor o fuddsoddiad yn gwella cynhyrchiant yn sylweddol. Fodd bynnag, yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddodd i'r Pwyllgor, nododd Infrastructure Australia nad yw ei gylch gwaith yn ei rwystro rhag edrych ar y seilwaith cymdeithasol, ac mewn gwirionedd bod y datganiad diweddaraf o'r disgwyliadau a roddwyd iddo gan Lywodraeth Awstralia yn dangos y byddai angen iddo edrych ar y seilwaith cymdeithasol yn y dyfodol.

21. Mae gan nifer o daleithiau Awstralia gyrrff seilwaith sydd â chylchoedd gwaith ehangach na'r hyn sydd wedi'i gynnig ar gyfer y Comisiwn yng Nghymru. Mae'r seilwaith economaidd a'r seilwaith cymdeithasol wedi'u cynnwys yng **ngylch gwaith Infrastructure NSW (De Cymru Newydd)**, ac felly hefyd gylchoedd gwaith **Building Queensland** ac **Infrastructure Victoria**. Building Queensland yw'r corff sy'n cynghori llywodraeth daleithiol Queensland am faterion sy'n ymwneud â'r seilwaith, ac yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd ei fod yn rhoi cyngor ar y seilwaith economaidd a'r seilwaith cymdeithasol, gan fod hynny'n gyson â holl gylch gwaith y llywodraeth daleithiol, sy'n cynnwys y naill seilwaith a'r llall.

22. Mae gan y **New Zealand National Infrastructure Unit** gylch gwaith ehangach hefyd. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad y stoc o asedau ffisegol sy'n sail i'r modd y mae'r economi'n gweithio, ac yn benodol y systemau rhwydwaith a chyfleustodau fel trafnidiaeth, dŵr, cyfathrebu ac ynni. Mae hefyd yn edrych ar ansawdd y buddsoddiad a wneir yn elfennau pwysig y seilwaith cymdeithasol fel ysgolion, ysbytai a charchardai, ac ar y modd y mae'r rheini'n cael eu rhedeg yn y tymor hir. Mae **Infrastructure Canada** hefyd yn edrych ar y seilwaith economaidd a chymdeithasol ill dau, gan gynnwys y seilwaith sy'n ymwneud â'r byd diwylliant a hamdden.

23. Er bod y Pwyllgor yn deall bod angen ystyried cymariaethau rhyngwladol yng nghyd-destun Cymru, mae profiad Awstralia – lle mae gan y cyrff ar y lefel daleithiol gylchoedd gwaith ehangach na'r corff ffederal – yn awgrymu nad oes yn rhaid i Gomisiwn Cymru fod wedi'i gyfyngu i'r un cylch gwaith â Chomisiwn y DU. Mae'r manteision sydd gan Gymru yn sgil ei maint a'i phoblogaeth lai yn golygu na ddylai cylch gwaith ehangach fod yn ormod o faich.

24. Yn y sesiwn â rhanddeiliaid ar 17 Tachwedd 2016, cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o faterion yn gysylltiedig â'r seilwaith cymdeithasol. Tynnodd y rhai sydd o blaid ei gynnwys sylw at yr anawsterau a geid o wahanu'r seilwaith cymdeithasol a mathau eraill o seilwaith, er enghraifft buddsoddi i wella hen dechnoleg er mwyn arbed ynni mewn cartrefi. Roedd yr angen i sicrhau bod y seilweithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu cydlynu hefyd yn rheswm dros roi cylch gwaith ehangach i'r Comisiwn. Fodd bynnag, roedd pobl hefyd yn cwestiynu faint o ddylanwad a fyddai gan y Comisiwn dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r seilwaith cymdeithasol, ac ystyried rôl cyrff y sector cyhoeddus a phroses y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Casgliad 1. Mae'r bwriad i wahaniaethu rhwng y seilwaith economaidd ac amgylcheddol ar y naill law, ac elfennau o'r seilwaith cymdeithasol ar y llaw arall, yn ymddangos yn fympwyol rywfodd, ac yn anodd ei ddiffinio ar brydiau. Fodd bynnag, gallai cyfyngu ar faint a chymhlethdod gwaith y Comisiwn olygu bod modd rheoli'r gwaith hwnnw'n haws

ar y dechrau, a gallai hynny fod yn fanteisiol. Nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig ar hyn o bryd y dylai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys pob elfen yn y seilwaith cymdeithasol. Serch hynny, mae'n credu bod achos cryf dros gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig, yn rhan o'r cylch gwaith.

Argymhelliad 1. Yn ogystal â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, dylid ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig.

Cynllunio sgiliau

25. Cyfeiriodd cynrychiolwyr y sector adeiladu a pheirianeg at bwysigrwydd cynllunio sgiliau'n effeithiol er mwyn creu seilwaith llwyddiannus. Meddai Mark Bodger, Cyfarwyddwr Partneriaethau Strategol CITB Cymru:

“I think, obviously, for us skills are an absolutely crucial part of this. To be able to deliver the projects that we're talking about, to have those skills is essential. And to maximise the number of people who could be trained and benefit as a result of that, with the economic impact that that'll have and the social impact that that'll have by raising the aspirations, so to see people getting involved in the construction sector and the built environment sector more widely, seeing the range of opportunities that there are, I think that will impact massively as far as the social impact that this has, and then we'll be able to impact some of the other policy agendas that we've got in Wales around poverty and other things.”⁸

26. Dadleuodd Neil Sadler, Cadeirydd ACE Cymru Wales, y byddai buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer y seilwaith hefyd yn gwella potensial Cymru i allforio busnes:

“If this vision looks far enough ahead, we're not only improving our own infrastructure, we're also upskilling our workforce to be able to sell our skills all around the world. There's a big spin-off from that with a very big social benefit, to my mind.”⁹

27. Yng Nghymru, ceir tair partneriaeth sgiliau ranbarthol ar hyn o bryd sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o gyrrff gwahanol i gydlynu a chynllunio ar gyfer datblygu sgiliau. Er hyn, nid oes strwythur ffurfiol i gydlynu eu gwaith ar lefel genedlaethol.

28. Dywedodd CECA Cymru a CITB Cymru y dylai sgiliau'r sector adeiladu fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, ac y dylai lunio cynllun seilwaith cenedlaethol ar gyfer sgiliau er mwyn rhagweld yr anghenion ac osgoi bylchau yn y galw.

29. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn teimlo bod modd i'r strwythurau ranbarthol presennol ar gyfer sgiliau wneud y gwaith cynllunio angenrheidiol, ac y dylai'r rheini allu ymateb i'r penderfyniadau hirdymor a wneir yn sgil cyngor y Comisiwn a phenderfyniadau Gweinidogion Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

⁸ Paragraff 55 Trawsgrifiad y Pwyllgor 17 Tachwedd 2016

⁹ Paragraff 56 Trawsgrifiad y Pwyllgor 17 Tachwedd 2016

“I wouldn’t envisage that form of skills delivery, certainly from the outset, given that we already have well-established regional skills delivery partnerships that already incorporate, basically, all of the interests and all of the delivery partners already. So, again, to uproot that particular model that we have right at this moment in time I don’t think would be in the interests of either the commission or skills training providers or the partners that form the regional skills partnerships.”¹⁰

“They [regional skills partnerships] should take account of the decisions that Ministers are taking and, therefore, as the decisions that Ministers take will be on the basis of evidence and recommendations from the commission, I would therefore expect regional skills partnerships to take account of that.”¹¹

30. Wrth fuddsoddi yn y seilwaith, mae potensial hefyd i greu swyddi â chyflogau da a hynny o fudd i bobl a'u cymunedau – yn enwedig y rhai sy'n cael llai o gyfleoedd. Yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref 2016, **dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

“It is essential that we use every lever at our disposal to ensure that people who have not been able to access opportunities for well-paid work are given opportunities through investment in infrastructure... I think that’s why as well, alongside the development of the commission, it’s going to be important that we gain an evidence base from the Better Jobs, Closer to Home pilot to inform how we’re going to be ensuring that major infrastructure projects benefit communities and people that perhaps in the past have not benefitted from major infrastructure projects.”¹²

31. Roedd CITB Cymru yn credu bod cynllunio sgiliau yn rhan hanfodol o gynllun ar gyfer y seilwaith, gyda'r sicrwydd o fuddsoddiad mewn prosiectau yn arwain at sicrwydd o fuddsoddiad mewn sgiliau. Gan fod Llywodraeth y DU wedi datblygu cynllun sgiliau seilwaith i Loegr, pwysleisiodd CECA Cymru y dylai Cymru wneud hyn hefyd rhag i'r gweithlu symud i Loegr.

Casgliad 2. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod angen cydlynu gwaith y tair partneriaeth sgiliau ranbarthol, nid yw'n argyhoeddedig mai'r Comisiwn yw'r corff gorau i wneud hyn. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn gyfrifol am hyn.

Cylch gwaith ariannol

32. Mae gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU gylch gwaith ariannol,¹³ sef 1-1.2% o'r Cynnyrch Domestig Gros bob blwyddyn rhwng 2020 a 2050. Dyma'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn disgwyl ei wario ar y seilwaith economaidd, a hynny wedi'i fynegi fel % o gynnyrch economaidd y DU (Cynnyrch Domestig Gros). Ar sail **y ffigur o £1.8 triliwn ar gyfer Cynnyrch Domestig Gros y DU** yn 2015, byddai hyn wedi golygu rhwng £18 biliwn a £22 biliwn yn 2015. Mae hyn yn ffordd o effeithiol o gyfyngu ar yr hyn y gall y Comisiwn ei argymhell, gan fod ganddo syniad clir o'r hyn sy'n fforddiadwy ym marn Llywodraeth y DU.

¹⁰ Paragraff 56 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

¹¹ Paragraff 61 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2016

¹³ Gweler Atodiad C: Geirfa

33. Mae materion ymarferol i'w datrys wrth osod cylch gwaith ariannol y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, gan fod y cyllid sydd ar gael yn dod o ffynonellau gwahanol, a'r ffaith bod elfennau o'r seilwaith yng Nghymru wedi'u datganoli ac elfennau eraill heb eu datganoli (er enghraifft, nid yw llawer o seilwaith y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd). Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol, er mwyn rhoi hygyrdded i'r Comisiwn a'i argymhellion, ei fod yn gwybod faint yw cyfanswm yr arian sydd gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi.

34. Meddai Rhodri Griffiths, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru:

“We’ve had a lot of discussion about how we might do the fiscal limit, and there’s been a lot of discussion about whether that should be a hard fiscal limit or whether it should be a softer fiscal limit as the Australians operate. The UK Government commission has a hard fiscal limit enshrined within its enabling Act of about 1 to 1.5 per cent. That doesn’t, however, recognise, if you pulled that into Wales, the devolved competencies that we have. We don’t have any competence in terms of specifying funding for the rail infrastructure, so we were looking at a model that provides guidance from the Welsh treasury to the commission on the funding envelope that it has. But that’s clearly a gross public expenditure funding envelope that we provide. The Welsh Government isn’t responsible for all infrastructure within Wales; there’s a private element of that, and we would expect the commission to look at the barriers and opportunities in driving that public funding and enabling that funding then to come into Wales, as well as just looking at the fiscal envelope that the Welsh treasury would provide. So, they might consider things like policy levers, as well as a funding envelope.”¹⁴

35. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth yn union fydd cylch gwaith llawn y Comisiwn, mae'n gwbl amhosibl amcangyfrif beth allai fod yn gyllideb addas. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl iddo fod yn nes at lefel Comisiwn y DU (tua £5 miliwn y flwyddyn) yn hytrach na'r Scottish Futures Trust (tua £10 miliwn y flwyddyn).

Argymhelliad 2. Dylai'r llythyr cylch gwaith blynyddol i'r Comisiwn gynnwys amcan o gyfanswm y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei wario ar y seilwaith, a hynny dros y cyfnod hiraf sy'n ymarferol.

Y System Gyllido

36. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried a ddylai'r Comisiwn allu benthycu er mwyn cyllido gwariant ychwanegol ar y seilwaith. Nid yw'r cynigion ar gyfer y Comisiwn yn cynnwys y gallu i fenthycu, yn sgil pryderon ynghylch a fyddai'r benthyciadau hynny'n ymddangos ar fantolen y sector cyhoeddus. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref:

“If I can just review some of the considerations that we’ve been giving to raising additional funding, we do share the aim of raising additional moneys for public infrastructure investment by developing models that retain most of the attractive features of the non-profit distributing model, but which reflect the

¹⁴ Paragraff 18 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

current classification regime... we have engaged legal and financial advisers to assist with developing a model that allows for the public sector to capture some of the returns to equity, which, of course, the Scots have been particularly successful with through Hub,¹⁵ and which we are also proposing to do...the Member also raised points about borrowing and why we will not be incorporating within the commission's remit the ability to be able to borrow. Now, this is largely an issue that's come to the fore of late. It's a recent development, but it concerns whether or not borrowing would sit on or off balance sheet. The ONS considers that not-for-profit models cannot apply a profit cap and sit off balance sheet. We know that because there was recently the rejection of the Scottish Government's application of the model applied to the Aberdeen Western bypass capital project."¹⁶

37. Mae'r Scottish Futures Trust wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch cyllido prosiectau seilwaith. Mae'n cyfeirio at y rhaglen 'Hub', a'r modd y gall honno fod yn berthnasol i waith y Comisiwn yng Nghymru. O dan y rhaglen hon, bydd awdurdod cyhoeddus yn defnyddio proses gaffael i benodi partner yn y sector preifat a fydd yn dylunio, yn adeiladu, yn cyllido ac yn cynnal asedau gan gynnwys ysgolion, canolfannau iechyd, ffyrdd, colegau ac ysbytai, a hynny fel prosiectau unigol nad ydynt yn dosbarthu elw. Y partner sy'n dod o hyd i'r cyllid ac yn darparu'r ased. Mae'r Scottish Futures Trust yn disgwyl i hyn gael ei ddiffinio fel buddsoddiad gan y sector preifat, sy'n golygu na fyddai unrhyw fenthycia yn ymddangos ar fantolen y sector cyhoeddus. Mae'n credu y gallai'r math hwn o strwythur fod yn berthnasol i waith y Comisiwn yng Nghymru, sef sefydlu partneriaeth drwy broses gaffael, a'r bartneriaeth honno'n un breifat ar y cyfan ond bod gan y sector cyhoeddus leiafrif o gyfranddaliadau. Wrth ddatblygu unrhyw gynllun, mae'n pwysleisio bod angen trafod â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol cyn bwrw ymlaen ag unrhyw brosiectau.

38. Mae tystiolaeth ysgrifenedig CECA Cymru yn dweud y dylid ystyried ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys buddsoddi, naill ai'n uniongyrchol drwy gomisiynu, neu drwy bartneriaeth ffurfiol ag eraill fel y Banc Datblygu. Ar 17 Tachwedd, awgrymodd CECA Cymru mai cam gwag fyddai cyfyngu gwaith y Comisiwn i gyllid o ffynonellau cyhoeddus, gan y gallai hyn gyfyngu ar ei raglen waith. Dywedodd CECA Cymru y gallai'r Comisiwn edrych ar gyllid o safbwynt strategol, gan ystyried datblygu cyfleuster a fyddai'n codi arian, fel y mae'r National Development Finance Agency yn ei wneud yn lwerddon. Fodd bynnag, dywedodd CECA Cymru a thystion eraill mai yn raddol y dylid mynd ati i wneud hyn. Pwnc arall sydd wedi'i **drafod yn ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn** yw a ddylai swyddogaethau banc seilwaith fod yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, **fel sy'n digwydd yng Nghanada**.

39. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi awgrymu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyllido buddsoddiad yn y seilwaith, a gallai hyn o bosibl gynnwys cydweithio rhwng y Comisiwn a llywodraeth leol. Mae'r Gymdeithas wedi cynnig y gallai llywodraeth leol a llywodraeth Cymru gydweithio i greu corff tebyg i'r Scottish Futures Trust i gyd-fynd â'r Comisiwn. Byddai hyn yn galluogi llywodraeth leol i gyfrannu at lywio cynlluniau buddsoddi cenedlaethol, gan greu cysylltiadau ffurfiol rhwng strategaethau cynllunio cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, Cynlluniau Datblygu Lleol a'r adnoddau a roddir i wella'r seilwaith. Fodd bynnag, mae'r Gymdeithas hefyd yn dweud bod potensial i'r corff weithio ochr yn ochr â'r Comisiwn er mwyn edrych ar fuddsoddi cymdeithasol ehangach. Dywed

¹⁵ Gweler Atodiad C: Geirfa

¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2016

hefyd bod angen gofal wrth ddatblygu corff canolog i ddarparu ar gyfer y seilwaith, gan nad yw pob corff cenedlaethol o'r fath wedi bod yn llwyddiannus. Byddai angen ystyried modelau eraill hefyd, fel gwasanaeth i gynllunio buddsoddiad llywodraeth leol neu ddefnyddio cymorth allanol i gynllunio ar gyfer darparu'r seilwaith y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdano.

Casgliad 3. Dros y degawdau nesaf, bydd yn rhaid wynebu her fawr wrth ariannu'r buddsoddiadau yn y seilwaith a argymhellir gan y Comisiwn. Mae angen sgiliau arbenigol yn hyn o beth. Mae'r Pwyllgor yn credu mai tîm penodol a chanddo arbenigedd yn y maes ddylai wneud y gwaith hwn a phenderfynu ar y ffordd orau o fwrw ati.

Argymhelliad 3. Mae angen tîm penodol o bobl i roi sylw manwl i sut y defnyddir cyllid preifat wrth ddatblygu'r seilwaith. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai'r tîm hwnnw fod yn rhan o Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru ynteu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, yn ogystal ag ystyried sut y bydd y tîm yn cydweithio â'r rhai sy'n gwneud gwaith perthnasol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

03. Llywodraethu ac annibyniaeth

Comisiwn statudol ynteu anstatudol

40. Mae statws cyfreithiol y Comisiwn wedi bod yn destun llawer o ddadlau yn ystod yr ymchwiliad hwn.

41. Mae **cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn** yn datgan mai corff anstatudol fydd y Comisiwn i ddechrau, gan nad oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i sefydlu Comisiwn statudol. Fodd bynnag, **yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

“In terms of what’s happened at a UK Government level, I recognise that it was something of a surprise that the UK Government did not proceed with making their commission statutory. We have asked for detailed reasoning in this regard, because we had been developing our model on the basis that they were going to be making theirs statutory, and therefore the natural next step based on evidence gathered in the years to come would be that we could also then transform ours into a statutory body. I’ve pledged to ensure that, by the end of this Assembly, there will be a review of the remit, efficacy and operations of the national infrastructure commission for Wales, so that we can fully assess whether it should be statutory. And then, if so, it will enable us to propose legislation when possible.”¹⁷

42. Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai Comisiwn y DU yn gorff statudol. Fodd bynnag, **ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys** y byddai Comisiwn y DU yn asiantaeth weithredol i Lywodraeth y DU, ac mae wedi penderfynu y bydd **siarter** yn sicrhau ei annibyniaeth.

43. Clywodd y Pwyllgor gan Brif Weithredwr Comisiwn y DU, a roddodd farn gytbwys am ddull Llywodraeth y DU o frwr ati, **gan nodi:**

“Ultimately, if the establishment of the commission isn’t taken forward through statute, then the commission can be disestablished without statute. I think there is a perception issue around that, which some of our stakeholders have picked up on. Actually, in terms of the independent operation of the commission, I think that we have ended up in a place where that’s quite well safeguarded...So, effectively, the charter is providing exactly the same framework of independence that the legislation was intending to provide to us. And if there’s a downside in terms of loss of permanence, I think there’s an upside in the fact that we’ve got—without people having to go through the process of taking the Bill through Parliament—there’s a certainty and a speed and a pace at which we can get that in place, which is much quicker and much further than would have been the case if the Bill had to work its way through Parliament over the course of six months.”¹⁸

¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2016

¹⁸ Paragraff 180-182 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

44. Mae pobl wedi beirniadu penderfyniad Llywodraeth y DU. Ysgrifennodd arweinwyr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Siambrau Masnach Prydain, London First a Chyngor Cynghori'r Fforwm Seilwaith lythyr agored at y Canghellor yn pwysleisio'r angen am Gomisiwn cwbl annibynnol, a galwodd ar Lywodraeth y DU i ailystyried a chyflwyno deddfwriaeth er mwyn creu Comisiwn statudol. At hynny, dywedodd yr Arglwydd Kinnock fod Llywodraeth y DU wedi dinistrio Comisiwn y DU drwy beidio â chreu Comisiwn statudol, ac na fyddai'n cyflawni ei botensial.

45. Roedd Ed Evans o CECA Cymru o blaid dull graddol o greu corff statudol. Meddai:

“I think the whole issue about statutory, non-statutory and part of Government or arm’s length, or whatever you want to call it, I think they’re quite critical things, because if it is part of Government, I really don’t think that we’ll get what we need from this. I mean that not as an industry, but as a nation, really.”¹⁹

46. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ryngwladol hefyd gan nifer o gyrff yn Awstralia sy’n cynghori ar faterion seilwaith, a soniodd y rhain am eu profiadau fel gyrff statudol. Er enghraifft, mae Infrastructure Victoria yn dadlau bod sefydlu’r corff drwy ddeddfwriaeth, a honno’n cynnwys darpariaethau penodol ynghylch annibyniaeth y corff, wedi bod yn bwysig wrth gael ei dderbyn fel llais awdurdodol ar faterion seilwaith.

47. Dywedodd Infrastructure Australia hefyd fod y ddeddfwriaeth a sefydlodd y corff wedi’i chryfhau yn 2014 er mwyn rhoi rhagor o bwerau iddo. Diben y ddeddfwriaeth oedd cryfhau rôl Infrastructure Australia fel corff annibynnol, tryloyw ac arbenigol, a hynny drwy newid ei strwythur llywodraethu ac egluro ei swyddogaethau'n well. Mae’n datgan bod cael trefn lywodraethu annibynnol, eglurder ynghylch diben y corff, a rôl strategol yn hanfodol i’w waith. Mae’r annibyniaeth hon wedi galluogi'r sefydliad i weithredu'n fwy effeithiol ac annibynnol.

48. Mae’r naill sefydliad a’r llall yn credu bod y rhesymau dros sefydlu corff annibynnol i gynghori am faterion seilwaith yn berthnasol nid yn unig i’w hamgylchiadau penodol hwy, ond ym mhob gwlad. Mae Infrastructure Victoria yn awgrymu bod hynny’n rhoi cyfle i gynnal trafodaethau cyhoeddus am brosiectau seilwaith angenrheidiol, ond rhai sydd o bosibl yn anodd, heb i wleidyddion orfod arwain hyn ar y dechrau. Mae’n credu bod hyn yn gyfle i ystyried prosiectau ar sail y dystiolaeth, a bod statws annibynnol y corff yn debygol o gynyddu ffydd cymunedau yn y prosesau a’r canlyniadau.

49. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith wrthym yn ei dystiolaeth lafar y gellid sefydlu’r Comisiwn yn gynt pe gwneid hynny ar sail anstatudol. Y ffactor hollbwysig yn ei benderfyniad fydd i ba raddau y bydd creu corff statudol yn rhoi gwerth ychwanegol i’r Comisiwn. Dywedodd fod angen deall y rhwystrau i greu corff annibynnol, a’i fod hefyd yn cynnal trafodaethau â Chomisiwn y DU i ganfod y rhesymau pam y penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chreu Comisiwn Statudol.

50. Mae’r Pwyllgor o blaid sefydlu'r Comisiwn yng Nghymru cyn gynted â phosibl, ac ystyried yr angen i wneud pethau’n gyflymach a’r lefelau hanesyddol o danwario ar seilwaith Cymru. Byddai sefydlu’r Comisiwn mewn ffordd nad yw’n gofyn am ddeddfwriaeth yn gosteffeithiol. Gallai gohirio cyflwyno deddfwriaeth hefyd roi cyfle i bethau sefydlogi yn sgil y strwythurau rhanbarthol newydd a fydd yn deillio o’r bargeinion dinesig/bargeinion twf a’r rhagor o gydweithio rhanbarthol rhwng

¹⁹ Paragraff 171 Trawsgrifiad y Pwyllgor 17 Tachwedd 2016

awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Ysgrifennydd y Cabinet eisoes wedi ymrwymo i adolygu statws y Comisiwn cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

51. Serch hynny, mae angen rhoi statws a hygredded i'r Comisiwn, a rhaid iddo fod yn gorff annibynnol a chael ei weld felly. Efallai'n wir fod siarter Comisiwn y DU yn rhoi iddo annibyniaeth, ond mae'r Pwyllgor yn nodi mai un o anafateision cael Comisiwn anstatudol yw'r ffaith nad yw'n ymddangos ei fod yn gorff parhaol. Mae'r cyrff sy'n cynghori ar y seilwaith yn Awstralia yn rhoi pwys mawr ar eu statws annibynnol, ac o'r farn bod y manteision i'w gweld y tu hwnt i ffiniau taleithiau a ffiniau'r wlad.

52. Er y dylid sefydlu corff trosiannol fel bod y Comisiwn wedi dechrau gweithio erbyn haf 2017, sef targed Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn credu felly y dylai fod rhagdybiaeth glir y bydd y Comisiwn yn gorff statudol maes o law.

Casgliad 4. Er bod y Pwyllgor yn credu mai'r ffordd orau o sicrhau annibyniaeth a hygredded y Comisiwn yw rhoi sail statudol iddo, nid oes angen oedi cyn ei sefydlu drwy aros am ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 4. Dylid sefydlu'r Comisiwn yn gorff anstatudol, ond gyda rhagdybiaeth glir y bydd deddfwriaeth yn dilyn er mwyn i'r Comisiwn fod yn gorff statudol, annibynnol. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r ffordd orau o greu corff statudol.

Leoliad y Comisiwn

53. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai ei staff yn un o'i swyddfeydd roi gwasanaeth ysgrifenyddol i'r Comisiwn.

54. Clywodd y Pwyllgor gan **Gomisiwn y DU** fod peidio â bod yn yr un swyddfeydd â Thrysorlys EM wedi bod o fudd er mwyn rhoi'r argraff bod y corff yn un annibynnol:

“For the first few months of our existence, we were based inside the Treasury building because we were—and, formally, still are—a part of the Treasury until the move to an executive agency happens. I think it was very difficult, when our stakeholders came in to speak to us and when we were out presenting our work and talking to the communities that we needed to deal with, to make the case that we were genuinely an independent body, when we were sitting inside the same four walls as the people who were meant to be scrutinising and responding to us. Getting out of the Treasury building was crucial.”²⁰

55. Yn sesiwn anffurfiol y Pwyllgor i gasglu tystiolaeth, roedd nifer o randdeiliaid yn cydweld, er bod eraill yn teimlo bod rhoi digon o adnoddau i'r Comisiwn a sicrhau gwerth am arian yn bwysicach na'i leoliad.

56. Mae **Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu** lleoli pencadlys Banc Datblygu Cymru yn y gogledd-ddwyrain, a Thrafnidiaeth Cymru yn y Cymoedd. Dylid dilyn yr un drefn o ddatganoli yn achos y Comisiwn.

Casgliad 5. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Comisiwn y DU y byddai peidio â bod yn yr un adeilad â'r llywodraeth y mae'r Comisiwn yn rhoi cyngor annibynnol iddi yn help i

²⁰ Paragraff 181 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

ddangos i'r cyhoedd bod y corff yn un annibynnol. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar leoliad y Comisiwn, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod angen cadw'r costau cyn ised â phosibl, a gall weld y manteision o rannu lleoliad â chorff cyhoeddus arall. Dylid ystyried costau teithio hefyd wrth edrych ar werth am arian wrth benderfynu ar y lleoliad.

Argymhelliad 5. Er mwyn hybu ei annibyniaeth, dylid lleoli'r Comisiwn y tu allan i Gaerdydd, ac ni ddylai rannu adeilad ag adrannau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r costau cyn ised â phosibl, dylai rannu lleoliad â chorff cyhoeddus arall mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian.

Atebolrwydd y Comisiwn

57. Mae angen i'r Comisiwn fod yn annibynnol ar ddylanwad y llywodraeth, ond mae angen iddo hefyd fod yn atebol i Lywodraeth Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Gymru'n ehangach am y gwaith y mae'n ei wneud.

58. Rhoddodd CITB Cymru **dystiolaeth** yn galw am sefydlu trefniadau llywodraethu clir er mwyn i'r Comisiwn adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor perthnasol yn y Cynulliad. Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn craffu'n flynyddol ar waith Cyllid Cymru **ar ôl argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid**, a dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu craffu ar waith y Comisiwn yn yr un modd. Gallai adroddiad blynyddol y Comisiwn fod yn sail i'r gwaith craffu hwn.

59. Yn ystod y digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, awgrymodd nifer y dylai'r Cynulliad allu rhoi barn am benodiadau i'r Comisiwn drwy wrandawiadau cadarnhau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Gadeirydd y Comisiwn, a dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu cynnal gwrandawriad cyn penodi'r Cadeirydd hwnnw. Byddai hyn yn gyfle i Gymru ddatblygu ar waith Pwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin sy'n craffu ar amrywiaeth eang o benodiadau cyhoeddus pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys Cadeiryddion arfaethedig amrywiaeth eang o gyrff fel Ymddiriedolaeth y BBC, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yr hen Gomisiwn Cynllunio Seilwaith a'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant.

Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu cynnal gwrandawriad cyn penodi Cadeirydd y Comisiwn. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu craffu'n flynyddol ar y Comisiwn a'i waith, ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad blynyddol.

04. Sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu ac yn gweithio â Llywodraeth Cymru

Adroddiadau

60. Mae Comisiwn y DU yn rhoi cyngor diduedd, arbenigol i Lywodraeth y DU am yr heriau hirdymor mawr sy'n ymwneud â'r seilwaith. Bydd yn gwneud hyn drwy asesu anghenion cenedlaethol y seilwaith unwaith ym mhob senedd; drwy gynnal astudiaethau manwl o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r seilwaith yn y DU a chyflwyno argymhellion i'r llywodraeth; a thrwy fonitro cynnydd y llywodraeth wrth roi prosiectau seilwaith a rhaglenni a argymhellwyd gan Gomisiwn y DU ar waith. Bydd hefyd yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol.

61. Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi llythyr cylch gwaith i Gomisiwn y DU, gan gynnwys cylch gwaith ariannol sy'n sicrhau bod ei argymhellion yn fforddiadwy. Mae ymrwymadau Llywodraeth y DU yn cynnwys ymateb i bob adroddiad o fewn blwyddyn i'w gyhoeddi, ac i'r mwyafrif llethol o fewn 6 mis; rhoi rhesymau pan fydd yn anghytuno ag argymhellion Comisiwn y DU gan gynnwys cyflwyno cynigion gwahanol pan fydd hynny'n briodol; gosod adroddiadau'r Comisiwn ac ymatebion Llywodraeth y DU gerbron y senedd; a rhannu gwybodaeth berthnasol â Chomisiwn y DU ac ymateb yn brydlon i geisiadau rhesymol am ddadansoddiadau newydd i helpu gwaith y Comisiwn, gan gynnwys gwybodaeth nad yw ar gael yn gyhoeddus.

62. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru yn rhoi cyngor technegol a strategol annibynnol ac arbenigol i Lywodraeth Cymru ynghylch anghenion seilwaith Cymru yn y tymor hir, dros gyfnod o 5 i 30 mlynedd. Y bwriad yw y bydd yn rhoi adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru, gan edrych ar bethau o safbwynt pob sector yng nghyd-destun rhagolygon realistig o lefel y buddsoddiad cyfalaf a fydd ar gael. Bydd hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am ei waith. Y disgwyl yw y bydd gan y Comisiwn y gallu i gomisiynu gwaith ymchwil penodol pan fydd hyn yn angenrheidiol a phan na fydd y wybodaeth ar gael neu pan na fydd cyrff eraill yn bwriadu gwneud y gwaith hwnnw.

63. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen adroddiad blynyddol am waith y Comisiwn er mwyn iddo fod yn dryloyw ac yn agored (gweler argymhelliad 7.)

64. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod y Comisiwn yn gweithio y tu allan i'r cylch etholiadol os yw am edrych ar bethau yn y tymor hir ac am wneud penderfyniadau heb fod iddynt ddylanwad gwleidyddol. Gallai cyflwyno adroddiadau ar adeg benodol yn ystod cylch etholiadol y Cynulliad arwain at demtasiwn i lunio argymhellion ar gyfer Llywodraeth benodol neu Weinidog penodol – boed eisoes yn y swydd, neu'n debygol o gael y swydd maes o law. Nid yw'r Pwyllgor am weld hyn yn digwydd. O'r herwydd, mae'r Pwyllgor yn gwrthwynebu'r syniad o gynhyrchu un adroddiad ym mhob Cynulliad. Dylai'r cylch adrodd fod yn annibynnol ar gylchoedd gwleidyddol Cymru a'r DU ill dau. Am y rheswm hwn, mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylid cael cylch adrodd bob tair blynedd.

65. Bydd enw da'r Comisiwn yn dibynnu i raddau helaeth ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n ymateb i'w waith. Dywedodd CITB Cymru ei bod yn bwysig cael proses dryloyw ar gyfer datblygu argymhellion y Comisiwn, ac os nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion hynny, dylai gyhoeddi'r rhesymau pam. Roedd CECA Cymru o blaid hyn hefyd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig.

“If the Commission is to have any value and credibility the outputs of its work (eg recommendations) should be implemented in all cases unless specific consideration is given by Welsh Government Ministers to disregard or amend the proposals. In any instance where the work of the Commission is not implemented a formal report should be presented outlining the reasons why proposals are not progressed;”²¹

66. Dywedodd **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** y dylai fod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i ymateb i argymhellion y Comisiwn o fewn cyfnod penodedig. Roedd y Bwrdd yn teimlo hefyd y dylai'r Comisiwn allu monitro cynnydd y prosiectau seilwaith hynny y mae wedi'u hargymell.

67. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn dweud bod angen bod yn glir ynghylch rôl y Comisiwn: a fydd yn helpu i ddatblygu'r seilwaith ar lefel dechnegol ynteu lefel ddemocrataidd, ynteu'r ddau. Mae'r Gymdeithas yn credu bod angen goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r seilwaith ar lefel genedlaethol, ond yn dweud hefyd y bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut y bydd awdurdodau lleol yn gweithio mewn ffordd fwy rhanbarthol dros y blynyddoedd nesaf.

68. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Comisiwn hefyd greu darnau unigol o waith yn edrych ar brosiectau penodol. Gallai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol a gallai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Comisiwn edrych ar y meysydd hyn drwy'r llythyr cylch gwaith, neu fe allai'r Comisiwn benderfynu gwneud y gwaith hwn ei hun. Dylid cyhoeddi'r adroddiadau a dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn llawn i bob argymhelliad o fewn chwe mis. Pan fydd y cyfnod hwnnw'n gyfnod cyn etholiad, byddai modd caniatáu oedi byr.

69. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn agored wrth ymwneud â'r Comisiwn, a dywedodd y byddai'n disgwyl i'r Llywodraeth gael rhesymau da dros beidio â derbyn argymhelliad. Meddai:

“This is again where, if we look at the UK commission’s work and the response from UK Ministers—I think we can learn a good lesson here. The recommendations and the advice that will be provided by the commission would be provided on a regular basis. Ministers would then have to respond in a transparent way, so that the National Assembly would then be able to gauge the degree to which Ministers are then taking into account the advice. I would expect that, if Ministers were to deviate away from that advice, they would have to do so with compelling reasons.”²²

Argymhelliad 7. Dylai'r Comisiwn lunio adroddiad rheolaidd ar “Gyflwr y Genedl” gan ddilyn amserlen wahanol i'r amserlen wleidyddol. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid gwneud hyn bob tair blynedd. Dylai'r adroddiad blynyddol roi sylw i faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, a'i raglen waith dros y 12 mis nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion – boed yn yr adroddiad bob tair blynedd, neu mewn darnau unigol o waith – a hynny o fewn 6 mis.

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig

²² Paragraff 14 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

Capasiti ymchwil

70. Mae'r tystion wedi rhoi sylwadau amrywiol ynghylch sut y dylai'r Comisiwn ddatblygu ei sail dystiolaeth. Roedd y sectorau adeiladu a pheirianeg yn cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru y dylai'r Comisiwn allu comisiynu ymchwil allanol pan fydd hynny'n angenrheidiol a pha na fydd y wybodaeth honno eisoes ar gael. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **yn ddiweddar wedi cyhoeddi** ei hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn. Mae'r Gymdeithas am i'r Comisiwn weithio â chyrrff cyhoeddus eraill i wneud gwaith ymchwil pan fydd y cyrrff hynny eisoes yn arwain ar y seilwaith yn y maes hwnnw. Dywedodd hefyd y dylai'r Comisiwn rannu ei gyngor, ei ddadansoddiadau a'i argymhellion â llywodraeth leol pan fydd llywodraeth leol yn arwain yn strategol ar y seilwaith.

71. Dywedodd Darren Mepham, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y dylai unrhyw gorff sy'n creu tystiolaeth newydd rannu'r wybodaeth â'r partneriaid perthnasol:

“If the commission’s producing national evidence and doing research and so on, it’d be vital that not just local authorities, but the regional authorities, have access to that and inform investment decisions. We’ve got a regional transport authority for the 10 councils in shadow form; we expect to have a regional strategic housing function and a regional strategic land use planning function across the 10 authorities in the next few months or years. So, for those bodies, it would be very helpful to be informed by any national commission, rather than working in isolation from it.”²³

72. Dywedodd hefyd y dylid rhannu gwybodaeth i'r cyfeiriad arall yn ogystal.

73. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn gwbl hanfodol bod Comisiwn y DU a Chomisiwn Cymru yn rhannu gwybodaeth. Meddai:

“I think that could be one of the great benefits of setting up a national infrastructure commission for Wales. The potential to share research opportunities and learn from best practice is immense.”²⁴

74. Mae'n ymddangos yn glir bod gan y Comisiwn gyfraniad i'w wneud wrth fynd ati'n rhagweithiol i gydlynu'r ymchwil sydd eisoes yn bodoli ynghylch y seilwaith. Er enghraifft, gall hyn gynnwys gwaith a gomisiynir gan gyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru. Gall y Comisiwn hefyd wneud gwaith ymchwil ei hun.

75. Nid yw ymchwil awdurdodol arbenigol yn rhad, a byddai angen i'r cyllid a roddir i'r Comisiwn yng Nghymru adlewyrchu hyn.

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y byddai'n fuddiol cydweithio a bod yn agored wrth gasglu tystiolaeth. Mae hyn yn gweithio'r naill ffordd a'r llall – byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Comisiwn rannu ei dystiolaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, ac i'r rheini roi eu holl waith ymchwil perthnasol i'r Comisiwn er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Byddai'r dull hwn o weithio yn cyd-fynd â'r dull o gydweithio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler Pennod 6).

²³ Paragraff 176 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

²⁴ Paragraff 104 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

05. Gweithio ag awdurdodau lleol/Dinas-ranbarthau

Gweithio â chyrff lleol a chyrff rhanbarthol

76. Bydd gallu'r Comisiwn i weithio ag awdurdodau lleol a Dinas-ranbarthau er mwyn datblygu perthynas waith dda a dealltwriaeth o'i rôl yn hanfodol er mwyn iddo lwyddo. Mae hon yn her sylfaenol i'r Comisiwn wrth sefydlu ei rôl. Mae rhai pobl, yn enwedig ymhlith llywodraeth leol, yn amau a oes angen y Comisiwn ac yn amheus hefyd am ei rôl.

77. Cwestiynodd y Cyngorydd Rob Stewart, arweinydd Cyngor Abertawe, beth fyddai'r Comisiwn yn ei ychwanegu at yr hyn sy'n bodoli'n barod:

“You’ve got Welsh Government, you’ve got the city regions, you’ve got the local authorities, you’ve got the potential for collaboration between the local authorities at an economic development level in future. What value-add will the commission bring and in what space will it work? That’s the clarity I’m looking for. Because, if you look at the Cardiff capital region deal and the Swansea bay city region deal, large parts of that will be infrastructure. Would the commission get itself involved in those decisions, would it affect how city regions deliver, would it then connect up with local authorities, and on what basis? I think, as was said, it’s all very well having advice—there’s plenty of advice around—but what value will it add, what can it do that we can’t currently do? And I think that those are the questions that I’m concerned about at the moment because I’m not clear, depending on the make-up, depending on the remit, how this would function in amongst all of the other structures that we’ve got.”²⁵

78. Mynegodd Ann Beynon bryderon arweinwyr busnes y dylai strwythurau newydd symleiddio yn hytrach na chymhlethu'r byd busnes yng Nghymru:

“Having spoken to the business community, and I have had many discussions with them in the southeast especially, I think there’s a very strong plea for simplification in relation to economic development in Wales—it’s very difficult; it’s not an easy thing to deal with. So, if it’s easier to deal with it in Newcastle, you’ll go to Newcastle. Because we do have strong proposals here, but it’s complicated and we need to have fewer bodies in general and simplify matters so that, if you have someone who wants to invest in Wales, they know where to go, and they can get that expertise.”²⁶

79. Roedd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet, yn cydnabod hyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor. Meddai:

“I’m very conscious of the need to consolidate and simplify the architecture—the ecosystem—that we have at the moment concerning advisory bodies, and I am aware of concerns that this may be another advisory body to add to the 48, I

²⁵ Paragraff 18 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

²⁶ Paragraff 19 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

think it is, that we have at the moment. I believe that this could actually complement a reduction in the number of bodies that we have at the moment because this has to operate (a) on a pan-Wales basis, but taking into account regional and local factors. It should also be cross-cutting and look at all forms of economic and environmental infrastructure. But it should also identify where there are interdependencies with social infrastructure and examine any barriers to delivery of infrastructure projects.”²⁷

80. Yn ystod ymgynghoriad Comisiwn y DU ar ei Asesiad Cenedlaethol o’r Seilwaith, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ei waith lleol a rhanbarthol gan bwysleisio bod angen bod yn ofalus wrth wneud argymhellion ynghylch prosiectau penodol, yn sgil yr angen i barchu penderfyniadau a blaenoriaethau lleol. Credai’r ymatebwyr fod angen cydnabod effaith bosibl datganoli ar sut y caiff y seilwaith ei gynllunio, ei ddarparu a’i reoli. Ymatebodd Comisiwn y DU gan ddweud:

“On local growth, the Commission recognises the importance of place and will continue to look at its work through a ‘place lens’. It also recognises that there are local representative bodies leading programmes of work in this area and will seek to work with these bodies as the NIA is developed.

In terms of the implications of NIA recommendations on local issues, those recommendations related to specific projects will focus on projects of strategic national importance, rather than those of purely local importance. The Commission agrees that it will be important to understand and take account of local plans that are relevant to nationally strategic infrastructure in considering such projects, and to work with relevant local bodies in understanding the evidence base. However, in keeping with its independence, the Commission will ultimately reach its own conclusions and make recommendations as appropriate. That may involve making recommendations to local decision making bodies, including local and combined authorities, in which case it will be for those bodies to decide how to respond.”²⁸

81. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn pwysleisio ei bod yn bwysig i’r Comisiwn fod yn ymwybodol o gynlluniau rhanbarthol ar gyfer y seilwaith yn gynnar yn y broses, a hynny er mwyn osgoi dyblygu gwaith posibl neu wrthdaro rhwng y cynlluniau rhanbarthol â chynlluniau mwy cyffredinol y Comisiwn. Er mwyn gwneud hyn, mae’r Bwrdd yn awgrymu y dylai cyrff rhanbarthol gyfrannu at waith y Comisiwn er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a sut y gallant effeithio ar y gwaith y bydd y Comisiwn yn ei wneud.

82. Mae CECA Cymru yn awgrymu y dylai’r Comisiwn allu dilyn enghraifft Infrastructure Australia, gan edrych ar gynigion rhanbarthol ar gyfer y seilwaith er mwyn sicrhau bod y rheini’n cyd-fynd â’r gwaith o gynllunio’r seilwaith ledled Cymru. Mae CITB Cymru yn awgrymu y dylai cyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol allu comisiynu ymchwil a chynghor gan y Comisiwn er mwyn i hynny fod yn sail i’w penderfyniadau.

²⁷ Paragraff 10 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

²⁸ Paragraff 60 Ymateb NIA i’r Ymgynghoriad, Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol

83. O ran Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, mae CITB Cymru yn datgan ei bod yn hanfodol bod y gwaith ar y seilwaith sydd ar y gweill yn cynnwys dadansoddiad o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu gan y bargeinion hyn. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn credu y bydd yn bwysig i'r Comisiwn a'r rhai sy'n llywodraethu'r Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf i ymwneud â'i gilydd gan y gallai gwaith y gwahanol gyrff elwa o hynny.

84. Ystyriodd y Pwyllgor y ffordd orau o sicrhau bod gan y Comisiwn ddealltwriaeth glir o gynlluniau a blaenoriaethau rhanbarthol. Byddai cael cynrychiolwyr rhanbarthol ar y Bwrdd yn datrys hyn, ond ar draul cyfyngu ar nifer y llefydd sydd ar gael i arbenigwyr – sy'n fwy o flaenoriaeth. Ateb gwell fyddai sicrhau bod gan bob rhanbarth fodd o gyfrannu at waith bwrdd y Comisiwn drwy ryw fath o fforwm rhanbarthol. Ar yr un pryd, efallai y bydd cyfarwyddyd clir yn y llythyr cylch gwaith, a phwyslais ar y dull o gydweithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ddigonol er mwyn sicrhau'r ymwybyddiaeth hon.

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai'r Comisiwn weithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol a/neu ffiniau rhanbarthol. Ond ag yntau'n gorff cynghori, bydd yn defnyddio'r dystiolaeth y mae'n ei chasglu a'i arbenigedd er mwyn darbwyllo; ni fydd pŵer ganddo i gyfarwyddo awdurdodau lleol etholedig beth i'w wneud.

Argymhelliad 8. Dylai'r penodiadau a wneir i'r Comisiwn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn deall pob rhan o Gymru. O ystyried pwysigrwydd y Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu fforwm i ddwyn ynghyd y gwahanol ranbarthau yng Nghymru ac i ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarthau hynny.

Trefniadau sy'n bodoli eisoes

85. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan na fydd y Comisiwn yn edrych ar drefniadau sydd eisoes wedi'u gwneud, neu ar fin cael eu gwneud.

86. Yn ei hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod hyn yn synhwyrol, ond dywedodd hefyd na ddylai hyn fod yn rhwystr mewn sefyllfaedd lle y gallai cyngor arbenigol y Comisiwn wella prosiectau sydd eisoes ar y gweill.

“The general premise for the NICfW should presumably be that it is forward looking rather than retrospective. It should presumably not be enabled to consider key decisions retrospectively, or to police decisions.

However this might need to be clarified. For example, where a decision has already been made to move ahead with a collaborative regional programme it should not prevent expert advice from being offered on the potential to enhance the programme.

Also decisions would arguably already have been made on the need for every project which makes up the current WIIP, however it would be self-defeating to prevent the NICfW from considering them and providing beneficial national oversight.

There must be a clear boundary within which the NICfW can operate and where it would be inappropriate for it to intervene based upon the nature of the project, and its commitment status in the development process.”²⁹

87. Fodd bynnag, bydd angen ystyried pethau'n fanylach cyn diffinio'r ffin hon.

Casgliad 8. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf y dylai'r Comisiwn edrych tua'r dyfodol yn unig. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan y Comisiwn ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa sydd ohoni, ac o'r meysydd hynny lle y gall ymyrryd a lle na all ymyrryd er mwyn ychwanegu gwerth. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r llythyr cylch gwaith cychwynnol yn pennu'r ffiniau hyn, neu fan leiaf yn cyfarwyddo'r Comisiwn i ymgynghori er mwyn gwneud hynny.

Gweithio â Chomisiwn y DU

88. Mae'r cynigion ar gyfer y Comisiwn yn dangos y bydd cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithiau'n gorgyffwrdd, mewn meysydd fel rhwydweithiau ffordd strategol sy'n croesi'r ffin. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod y trefniadau ar gyfer gweithio â Llywodraeth y DU yn y meysydd hyn.

89. Yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai'n ddefnyddiol penodi aelod o Gomisiwn y DU ar Gomisiwn Cymru, er mwyn cydnabod natur drawsffiniol y seilwaith ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Byddai angen ehangu cylch gwaith y Comisiwn yng Nghymru i gynnwys y seilwaith mewn meysydd sydd heb eu datganoli hefyd.

90. **Dywedodd Mark Harris, o'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi:**

“Just to come back to the first question—‘Why do we need a commission?’—one other thought, and maybe why a commission would work better than Welsh Government, is that a lot of the infrastructure issues are cross-border and wider than just Wales. I’m not suggesting Welsh Government don’t work well with English Government, but we all know examples where they maybe haven’t worked as well as they could have done, from both sides, so maybe a commission would be in a better position to deal with those cross-boundary and wider-than-Wales issues.”³⁰

91. Mae Comisiwn y DU wedi dangos sut y bydd yn gweithio â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch sut y dylai Comisiwn y DU gael ei lywodraethu, ei strwythuro a'i weithredu, mae'n dweud y bydd cylch gwaith y Comisiwn yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau datganoledig ar gyfer y seilwaith. Mae'n dweud hefyd y bydd yn gweithio yn y meysydd hynny lle mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb am y seilwaith yn y gwledydd datganoledig. Mae'n nodi y bydd Comisiwn y DU yn gweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn datblygu trefniadau gweithio pan fydd cyfrifoldebau'n gorgyffwrdd.

92. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'n trafodaethau â Philip Graham nad oedd materion datganoledig neu drawsffiniol wedi bod yn flaenoriaeth fawr i Gomisiwn y DU hyd yma.

²⁹ Cyflwyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

³⁰ Paragraff 24 Trawsgrifiad y Pwyllgor 17 Tachwedd 2016

93. Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn dweud ei bod yn hanfodol cael trefniadau i weithio'n drawsffiniol, gan y bydd galw am seilwaith newydd ac am ddiweddarau'r seilwaith er mwyn sicrhau twf economaidd a thwf yn y sector tai yn yr ardaloedd hyn. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn credu y dylai hyn gynnwys trefniadau ar gyfer delio â materion sy'n ymwneud â'r seilwaith yn Lloegr ond sy'n effeithio ar Gymru, hyd yn oed pan na fydd y rheini wedi'u datganoli, a datblygu proses ymgynghori pan fydd y trefniadau gweithio'n gorgyffwrdd. Mae CECA Cymru yn awgrymu y dylai'r naill Gomisiwn a'r llall allu craffu ar gynigion ei gilydd a herio'r rheini.

94. Dywedodd Iwan Prys Jones, rheolwr rhaglenni Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, bod datblygiadau seilwaith sy'n agos at y ffin yn bwysig gan eu bod yn gallu cael effaith fawr ar Gymru. Meddai:

"I would say that probably three of the big investment and infrastructure projects that we would want to see in north Wales are actually all in England. We'd want to see improvements to the A5 and the A483; we'd want to see improvements to the A483 and A55 junction, which happens to be in Chester, and Chester station capacity improvements are absolutely essential to running more train services in and out of Wales. So, we can invest every penny we have in investment in Welsh infrastructure, but the reality is that those constraints, which are just over the border, would prevent there being any real value of any of those investment decisions, and that's why we need to have a cross-border approach."³¹

95. O ystyried pwysigrwydd y seilwaith trawsffiniol, a'r seilwaith yn Lloegr, i Gymru, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod y Comisiwn yn gallu cymryd camau i sicrhau bod Comisiwn y DU yn ystyried y prosiectau hyn a'u pwysigrwydd i Gymru.

Casgliad 9. Mae'r Pwyllgor o blaid y cynnig i wahodd aelod o Gomisiwn y DU i fod yn aelod o Gomisiwn Cymru hefyd. Mae hyn yn hanfodol, ond nid yw'n ddigon.

96. Er mwyn cael llais ar lefel y DU, mae'n hanfodol bod Comisiwn Cymru yn datblygu perthynas gref â Chomisiwn y DU, a hynny ar lefel y bwrdd a lefel y swyddogion. Bydd hyn yn sicrhau bod pryderon Cymru yn cael sylw, yn enwedig mewn meysydd sydd heb eu datganoli fel y seilwaith rheilffyrdd, lle bu tanfuddsoddi hanesyddol yng Nghymru.

97. Mae llawer i'w ddysgu hefyd o'r Scottish Futures Trust, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori â'r corff hwnnw ynghylch dulliau arloesol o gyllido prosiectau seilwaith.

98. Mae'r dystiolaeth o Awstralia yn awgrymu ei bod yn bosibl datblygu perthynas effeithiol rhwng cyrff hyd yn oed os nad oes ganddynt yr un cyfrifoldebau'n union. Mae cyrff seilwaith taleithiau Awstralia yn cyfarfod â'i gilydd bob chwarter – a byddai'n ymddangos yn rhesymol ac yn fuddiol i'r cyrff seilwaith sy'n cael eu datblygu yn y DU sefydlu trefniant tebyg.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru annog y Comisiwn i sefydlu a datblygu perthynas gref â Chomisiwn y DU a'r Scottish Futures Trust, a dylent rannu gwybodaeth â'i gilydd. Dylid gwneud hyn yn y llythyr cylch gwaith cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn credu y

³¹ Paragraff 124 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

bydd gan y Comisiwn gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ystyried goblygiadau prosiectau trawsffiniol a phrosiectau yn Lloegr yn unig sy'n gallu cael effaith fawr ar Gymru.

06. Gweithio â chyrff eraill

Cenedlaethau'r Dyfodol

99. Cyfeiriodd rhanddeiliaid – a'r sector amgylcheddol yn enwedig – at bwysigrwydd deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

100. Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid ei ddarbwylllo ynghylch hyn:

“We have not yet reached a decision on whether the future generations commissioner should hold to account the commission, because we've not yet determined whether the commission should be added to the list of public bodies. My view at this stage is that because the infrastructure commission will be reporting to Ministers—and Ministers are already duty-bound to deliver against the Act and are on that list—at this stage, it's my view at the moment that I don't expect or anticipate the commission to be added to that list, because essentially it's advisory to Government and, by virtue of Government, then, being on that list, the commission's work would have to pay due regard to the Act as well.”³²

101. Mae'r Pwyllgor yn anghytuno. Mae annibyniaeth y Comisiwn yn gwbl hanfodol. O ganlyniad, dylai fod ganddo'i ddyletswyddau ei hun yng nghyd-destun deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a hynny'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

102. Os caiff y Comisiwn ei sefydlu ar sail anstatudol, dylai weithredu ym mhob ffordd fel pe bai'n gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth symud i greu corff statudol, dylid cadarnhau hyn mewn deddfwriaeth.

103. Mae tensiwn yn bodoli rhwng y bargeinion dinesig/bargeinion twf – sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth y DU ac yn rhoi pwyslais ar dwf economaidd – a dull ehangach Llywodraeth Cymru o ddatblygu “Cymru ffyniannus”, sef un o'r saith nod yn Ndeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai cynnwys y Comisiwn yn rhan o'r Ddeddf yn sicrhau ei fod yn edrych ar bethau yn y ffordd ehangaf bosibl.

104. Bydd gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar dueddiadau yn y dyfodol yn dystiolaeth bwysig i'r Comisiwn wrth iddo ystyried anghenion Cymru ymhen 20 i 30 mlynedd.

Argymhelliad 10. Dylid ystyried y Comisiwn yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Y berthynas â chyrff rheoleiddio amgylcheddol

105. Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai'r Comisiwn yn ymgynghori ac yn gweithio'n agos â chyrff eraill a all fod â chylch gwaith sy'n ymwneud â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol; er enghraifft, y Grid Cenedlaethol, OFWAT a Cyfoeth Naturiol Cymru.

106. Clywodd y Pwyllgor gan Darren Mepham, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bod bwch posibl yn y farchnad ac y gallai'r Comisiwn edrych ar y seilwaith amgylcheddol, gan nad yw'r Bargeinion Dinesig, sy'n canolbwytio mwy ar y seilwaith economaidd, yn rhoi sylw i hyn.

³² Paragraff 148 Trawsgrifiad y Pwyllgor 7 Rhagfyr 2016

Fodd bynnag, dywedodd Ann Beynon, Cadeirydd dros dro Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, fod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn rhoi cyngor ynghylch o leiaf chwarter cylch gwaith arfaethedig y Comisiwn.³³

107. O ganlyniad, mae angen penodol i'r Comisiwn ddatblygu perthynas waith gref â Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae'r Pwyllgor o blaid cynnig Llywodraeth Cymru y dylai'r Comisiwn weithio'n agos â chyrff eraill sydd â chylchoedd gwaith yn ymwneud â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, fel OFWAT a'r Grid Cenedlaethol. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i ategu ac ychwanegu gwerth at waith y cyrff hyn.

Casgliad 10. Mae'r Pwyllgor o blaid cynnig Llywodraeth Cymru y dylai'r Comisiwn weithio â chyrff sy'n ymwneud â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, ac mae'n annog y Comisiwn yn gryf i wneud hyn yn gyflym ar ôl cael ei sefydlu er mwyn ychwanegu gwerth at waith y cyrff hyn.

³³ Paragraff 101 Trawsgrifiad y Pwyllgor 1 Rhagfyr 2016

Casgliadau

Casgliad 1. Mae'r bwriad i wahaniaethu rhwng y seilwaith economaidd ac amgylcheddol ar y naill law, ac elfennau o'r seilwaith cymdeithasol ar y llaw arall, yn ymddangos yn fympwyol rywfodd, ac yn anodd ei ddiffinio ar brydiau. Fodd bynnag, gallai cyfyngu ar faint a chymhlethdod gwaith y Comisiwn olygu bod modd rheoli'r gwaith hwnnw'n haws ar y dechrau, a gallai hynny fod yn fanteisiol. Nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig ar hyn o bryd y dylai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys pob elfen yn y seilwaith cymdeithasol. Serch hynny, mae'n credu bod achos cryf dros gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig, yn rhan o'r cylch gwaith. Tudalen 13

Casgliad 2. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod angen cydlynu gwaith y tair partneriaeth sgiliau ranbarthol, nid yw'n argyhoeddedig mai'r Comisiwn yw'r corff gorau i wneud hyn. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn gyfrifol am hyn. Tudalen 15

Casgliad 3. Dros y degawdau nesaf, bydd yn rhaid wynebu her fawr wrth ariannu'r buddsoddiadau yn y seilwaith a argymhellir gan y Comisiwn. Mae angen sgiliau arbenigol yn hyn o beth. Mae'r Pwyllgor yn credu mai tîm penodol a chanddo arbenigedd yn y maes ddylai wneud y gwaith hwn a phenderfynu ar y ffordd orau o fwrw ati. Tudalen 18

Casgliad 4. Er bod y Pwyllgor yn credu mai'r ffordd orau o sicrhau annibyniaeth a hygredd y Comisiwn yw rhoi sail statudol iddo, nid oes angen oedi cyn ei sefydlu drwy aros am ddeddfwriaeth. Tudalen 21

Casgliad 5. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Comisiwn y DU y byddai peidio â bod yn yr un adeilad â'r llywodraeth y mae'r Comisiwn yn rhoi cyngor annibynnol iddi yn help i ddangos i'r cyhoedd bod y corff yn un annibynnol. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar leoliad y Comisiwn, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod angen cadw'r costau cyn ised â phosibl, a gall weld y manteision o rannu lleoliad â chorff cyhoeddus arall. Dylid ystyried costau teithio hefyd wrth edrych ar werth am arian wrth benderfynu ar y lleoliad. Tudalen 21

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y byddai'n fuddiol cydweithio a bod yn agored wrth gasglu tystiolaeth. Mae hyn yn gweithio'r naill ffordd a'r llall – byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Comisiwn rannu ei dystiolaeth â chyrrff

cyhoeddus eraill, ac i'r rheini roi eu holl waith ymchwil perthnasol i'r Comisiwn er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Byddai'r dull hwn o weithio yn cyd-fynd â'r dull o gydweithio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler Pennod 6). Tudalen 25

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai'r Comisiwn weithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol a/neu ffiniau rhanbarthol. Ond ag yntau'n gorff cyngori, bydd yn defnyddio'r dystiolaeth y mae'n ei chasglu a'i arbenigedd er mwyn darbwyllo; ni fydd pŵer ganddo i gyfarwyddo awdurdodau lleol etholedig beth i'w wneud. Tudalen 28

Casgliad 8. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf y dylai'r Comisiwn edrych tua'r dyfodol yn unig. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan y Comisiwn ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa sydd ohoni, ac o'r meysydd hynny lle y gall ymyrryd a lle na all ymyrryd er mwyn ychwanegu gwerth. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r llythyr cylch gwaith cychwynnol yn pennu'r ffiniau hyn, neu fan leiaf yn cyfarwyddo'r Comisiwn i ymgynghori er mwyn gwneud hynny. Tudalen 29

Casgliad 9. Mae'r Pwyllgor o blaid y cynnig i wahodd aelod o Gomisiwn y DU i fod yn aelod o Gomisiwn Cymru hefyd. Mae hyn yn hanfodol, ond nid yw'n ddigon. Tudalen 30

Casgliad 10. Mae'r Pwyllgor o blaid cynnig Llywodraeth Cymru y dylai'r Comisiwn weithio â chyrrff sy'n ymwneud â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, ac mae'n annog y Comisiwn yn gryf i wneud hyn yn gyflym ar ôl cael ei sefydlu er mwyn ychwanegu gwerth at waith y cyrrff hyn.
..... Tudalen 33

Atodiad A: Y dystiolaeth a gafwyd

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor rhwng 9 Tachwedd 2016 a 30 Tachwedd 2016. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld ar [wefan y Pwyllgor](#).

01 Cymdeithas y Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA Wales Cymru)

02 CITB Cymru Wales

03 Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

04 Building Queensland

05 Infrastructure Victoria

06 Infrastructure Australia

07 Scottish Futures Trust

08 Llywodraeth Cymru

09 National Energy Action (NEA) – Cymru

10 Infrastructure New South Wales

Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfarfod: 17/11/2016 - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Panel y sectorau adeiladu a pheirianeg – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

- Neil Sadler, ACE Cymru Wales, Cadeirydd
- Mark Bodger, Cyfarwyddwr Partneriaethau Strategol, CITB Cymru Wales
- Ed Evans, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru (CECA Wales Cymru)
- Mark Harries, Cynghorwr Cynllunio a Pholisi Cymru, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Cyfarfod: 01/12/2016 – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Safbwynt rhanbarthol - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

- Ann Beynon, Cadeirydd, Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Iwan Prys Jones, Rheolwr Rhaglenni, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Dinas a Sir Abertawe, Dinas- Ranbarth Bae Abertawe

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (drwy gyfrwng cynhadledd fideo)

- Philip Graham, Prif Weithredwr, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (drwy gyfrwng cynhadledd fideo)

Cyfarfod: 07/12/2016 – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Llywodraeth Cymru - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

- Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
- Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru
- Rhodri Griffiths, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

Llywodraeth leol - Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

- Darren Mepham, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a swyddog arweiniol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cafodd y Pwyllgor ragor o sylwadau ynghylch yr hyn y gallai'r Comisiwn Seilwaith ei olygu i fusnesau bach, grwpiau amgylcheddol a chyrff eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Digwyddiad i randdeiliaid, 17 Tachwedd 2016

Sefydliad	Enw
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	James Byrne
Siambwr Fasnach De Cymru	Elgan Morgan
Renewables UK	David Clubb
Chwarae Teg	Natasha Davies
Sefydliad Bevan	Nisreen Mansour
Y Sefydliad Materion Cymreig	Shea Jones
Centrica (Nwy Prydain)	Nick Speed
Tidal Lagoon	Catrin Jones, Neil Woodall, Ioan Jenkins

Atodiad B: Nodyn o'r sesiwn â rhanddeiliaid ar 17 Tachwedd

Crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn nigwyddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i randdeiliaid ynghylch y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

Y prif bwyntiau ynghylch sefydlu'r Comisiwn

A ddylai cylch gwaith y Comisiwn ganolbwyntio ar y seilwaith economaidd ac amgylcheddol, ynteu a ddylai gynnwys y seilwaith cymdeithasol hefyd

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid o blaid cynnwys y seilwaith cymdeithasol yng nghylch gwaith y Comisiwn, gan gredu bod angen dull cydlynol o gynllunio'r seilwaith.

Cytunodd nifer o randdeiliaid bod angen ystyried pob elfen o'r seilwaith ynghyd, er enghraifft, mae angen seilwaith trafniadaeth er mwyn helpu pobl i gyrraedd y gwaith, ysgolion ac ysbytai. At hynny, mae'n anodd diffinio a yw rhai mathau o seilwaith yn gymdeithasol ynteu'n amgylcheddol eu natur, fel cymryd camau i arbed ynni mewn cartrefi.

Mewn meysydd fel tai a chynllunio, dywedodd rhai bod angen edrych ar hyn o safbwynt cenedlaethol gan nad yw awdurdodau lleol yn edrych ar y meysydd hyn yn strategol mewn rhai achosion, ac ni fyddant yn gwneud hynny yn y dyfodol chwaith.

Fodd bynnag, yn sgil natur Cynlluniau Datblygu Lleol, roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu faint o ddylanwad a fyddai gan y Comisiwn dros y seilwaith cymdeithasol, gan ddweud y byddai hyn yn effeithio ar rôl awdurdodau lleol.

Os na chaiff y seilwaith cymdeithasol ei gynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn, mae angen sicrwydd y bydd y gwaith ar y gwahanol fathau o seilwaith yn cael ei gydlynu.

A ddylai'r Comisiwn fod yn gorff statudol ynteu anstatudol, a sut y dylid sicrhau ei annibyniaeth

Cymysg oedd y farn am hyn. Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i'r Comisiwn gael cyfrifoldeb statudol i gynghori Llywodraeth Cymru, tra nad oedd gan eraill farn gryf ynghylch sut yn union i sicrhau annibyniaeth y Comisiwn, er bod hynny'n bwysig.

Cyfeiriwyd at graffu ar waith y Comisiwn fel corff ar wahân yn y cyd-destun hwn, ac awgrymwyd y gallai fod rôl i'r Cynulliad wrth benodi aelodau'r Comisiwn drwy wrandawiadau cyn penodi. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Cynulliad graffu ar waith y Comisiwn.

Y meysydd arbenigol a ddylai gael eu cynrychioli ar y Comisiwn

Cyfeiriodd pob panel o randdeiliaid at yr angen i gael Comisiwn amrywiol, a dywedwyd ei bod yn hanfodol cael cydbwysedd o ran y rhywiau a chynrychiolaeth o bob rhan o Gymru.

O ran y sectorau penodol y byddai angen i'r Comisiwn gael arbenigedd ynddynt, cyfeiriwyd at fusnes, newid yn yr hinsawdd, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Pwyntiau pwysig ynghylch sut y dylai'r Comisiwn weithredu

Sut y dylai'r Comisiwn greu sail dystiolaeth a gwneud argymhellion, a sut y dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r rhain

Dywedwyd bod angen i'r Comisiwn feddwl o safbwynt hirdymor ac ar draws sectorau wrth wneud ei waith, yn ogystal ag ymgysylltu â chymunedau. Cyfeiriwyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gofyn am waith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Ym marn llawer o randdeiliaid, mae sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i waith y Comisiwn yn hanfodol. Mae angen ymateb yn fanwl i'r argymhellion, a dylid gosod yr ymateb hwnnw gerbron y Cynulliad. Teimlwyd bod argymhellion a wrthodir yn arbennig o bwysig, ac y bydd angen i Lywodraeth Cymru gyfiawnhau pam nad ydynt yn cael eu derbyn.

Bydd angen i'r Comisiwn edrych y tu hwnt i Gymru ar yr arferion gorau. Yn y DU ei hun, cyfeiriwyd at yr hen asiantaethau datblygu rhanbarthol fel enghreifftiau o arferion da wrth wneud gwaith ar y seilwaith a materion trafndiaeth.

Sut y dylai Comisiwn Cymru a Chomisiwn y DU gydweithio

Dywedwyd bod angen sicrhau manteision o gael Comisiwn ar gyfer y DU sy'n edrych ar fatron trawsffiniol fel y rheilffyrdd a meysydd eraill sy'n bwysig i Gymru, fel y Grid Cenedlaethol.

Dylid sefydlu trefniadau gweithio rhwng y ddau Gomisiwn er mwyn rhannu arferion da ac i ddelio â materion trawsffiniol.

Pwyntiau pwysig ynghylch datblygu cynaliadwy a gwaith y Comisiwn

Pwysigrwydd datblygu cynaliadwy

Dylai datblygu cynaliadwy fod yn egwyddor graidd i'r Comisiwn.

Byddai angen i hyn gynnwys y diffiniad a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a nodwyd bod cydnerthed yn hanfodol er mwyn datblygu'n gynaliadwy.

Dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn berthnasol i waith y Comisiwn.

Mae angen i'r Comisiwn edrych ar bethau o safbwynt hirdymor, gan ystyried yr holl nodau llesiant, o ffyniant i'r nodau amgylcheddol.

Gellid diwygio'r Ddeddf fel bod y Comisiwn yn cael ei ddiffinio'n gorff cyhoeddus, a dylai'r Comisiwn adrodd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyn o beth.

Mae angen perthynas dda â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn deall anghenion lleol, ac mae angen ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol.

Cwestiynau pwysig gan y rhanddeiliaid i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Awgrymodd y rhanddeiliaid amryw o gwestiynau, sydd wedi'u crynhoi isod. Awgrymodd mwy nag un panel nifer o gwestiynau.

Sut y bydd y Comisiwn yn fwy na siop siarad, ac yn dwyn ynghyd bawb sydd â diddordeb yn y maes er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn ei rôl a'i waith?

Sut y bydd y Comisiwn yn edrych ar bethau o safbwynt hirdymor, ac i ba raddau y bydd llywodraethau dilynol wedi'u hymrwymo i ddilyn ei argymhellion?

Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet am ei gyflawni yn sgil y Comisiwn – ffyniant economaidd ynteu Cymru gynaliadwy?

Sut y bydd y Comisiwn yn cael ei drefnu fel ei bod yn rhoi sylw i'r holl feysydd Gweinidogol, ac a oes angen i'r Prif Weinidog oruchwylio'i waith yn gyffredinol?

Beth fydd hyd tymhorau Comisiynwyr yn y swydd, a sut y bydd y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn arwain at gael yr aelodaeth angenrheidiol?

Pam nad yw cylch gwaith y Comisiwn yn cynnwys y seilwaith cymdeithasol, ac a yw hyn yn creu ffin fympwyol rhwng y gwahanol fathau o seilwaith?

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na ddylai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys y seilwaith cymdeithasol gan fod prosesau eisoes wedi'u sefydlu i gynllunio yn y maes hwn. Onid oes prosesau wedi'u sefydlu eisoes ar gyfer cynllunio'r seilwaith economaidd hefyd?

Faint o staff a chyllideb y bydd eu hangen ar y Comisiwn?

Beth fydd rôl y Comisiwn o ran hwyluso cyllid cyhoeddus/preifat ar gyfer prosiectau i ddatblygu'r seilwaith?

Beth fydd rôl y Comisiwn yng nghyd-destun cymunedau ac ardaloedd o amddifadedd, annog symudedd cymdeithasol a mynd i'r afael â chyflogau isel?

Faint o risg sydd y gall fod bwlch rhwng sefydlu'r Comisiwn a gweld hwnnw'n gwneud gwaith effeithiol, yn enwedig gan fod y strategaeth economaidd yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd?

Sut y bydd Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gwreiddio yng ngwaith y Comisiwn, a beth fydd rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng ngwaith y Comisiwn?

Sut y bydd Comisiwn Cymru yn ymwneud â Chomisiwn y DU, cyrff eraill sy'n cynllunio'r seilwaith yn y DU, a rheoleiddwyr y mathau o seilwaith sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli?

Atodiad C: Geirfa

Y seilwaith economaidd (a elwir weithiau yn seilwaith economaidd ac amgylcheddol) yw'r seilwaith sy'n cynnal y wlad, yn ôl **disgrifiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**. Mae'n cynnwys **amrywiaeth o sectorau** gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, dŵr a charthffosiaeth, amddiffynfeydd rhag llifogydd a chyfathrebu digidol. Gelwir hyn yn seilwaith economaidd ac amgylcheddol yng **ngghynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru**.

Y seilwaith cymdeithasol yw'r seilwaith sy'n cynnwys asedau a ddefnyddir at ddibenion cymdeithasol, ac fe'i **diffinnir gan Lywodraeth Cymru** fel seilwaith sy'n cynnwys meysydd fel ysgolion, iechyd a thai.

Y seilwaith gwyrdd yw'r seilwaith yn y mannau gwyrdd a glas mewn trefi a dinasoedd ac o amgylch y rheini. Mae elfennau o'r seilwaith gwyrdd yn cynnwys parciau, gerddi preifat, caeau amaethyddol, cloddiau, coed, coetiroedd, toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, afonydd a phyllau. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn dweud bod y term yn cynnwys pob darn o dir ac ynddo'r nodweddion hyn, waeth pwy sy'n berchen arno, ym mha gyflwr y mae, na beth yw ei faint.

Mae **cylch gwaith ariannol** yng nghyd-destun corff sy'n cynghori ar y seilwaith yn cyfeirio at wneud argymhellion sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'r llywodraeth yn bwriadu'i wario ar y seilwaith dros gyfnod o amser. Enghraifft o hyn fyddai **cylch gwaith ariannol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU**, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddangos bod ei argymhellion ar gyfer y seilwaith economaidd yn gyson â buddsoddiad cyhoeddus gros yn y seilwaith o rhwng 1.0% a 1.2% o'r Cynnyrch Domestig Gros bob blwyddyn rhwng 2020 a 2050. Rhaid iddo ddangos hefyd bod modd rhoi ei argymhellion ar waith gyda'r symiau hynny.

Mae'r **model nad yw'n dosbarthu elw wrth ariannu'r seilwaith** yn opsiwn gwahanol i'r model menter cyllid preifat (PFI) traddodiadol. Mae'n ddull o ariannu sy'n galluogi llywodraethau i fenthycu er mwyn gwario ar y seilwaith heb i hyn gyfrif yn fenthycu gan y llywodraeth, ac felly heb iddo ymddangos ar fantolen y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at y **model "Hub"** yn yr Alban fel enghraifft o hyn. O dan y model hwn, bydd cwmnïau yn gyfrifol am brosiectau sy'n eiddo'n bennaf i'r sector preifat, ond bod gan y sector cyhoeddus leiafrif o gyfranddaliadau ynddynt. Mae'r model yn datblygu ar y model PFI drwy alluogi'r sector cyhoeddus i elwa rhywfaint o brosiect sy'n buddsoddi yn y seilwaith.

Banc seilwaith yw banc a sefydlir gan y llywodraeth er mwyn rhoi cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith, a hynny o'r sector preifat yn bennaf ac mewn ffordd sefydlog, hirdymor. Datblygwyd y banc seilwaith diweddaraf **yng Nghanada**, ac mae **Growth Commission y London School of Economics** wedi argymhell y dylid datblygu banc seilwaith yn y DU.